



## Polisi ar gyfer Rhieni a Defnyddwyr Gwasanaeth sydd eisiau Recordio Cyfarfodydd

### BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Fersiwn	Dyddiad Adolygu	Perchennog	Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
F1	14/07/21	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	14/07/20	14/07/22
F2	Hydref 2022	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau)	24/01/2023	24/01/2025

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Pryd fyddai defnyddwyr gwasanaeth eisiau recordio cyfarfodydd a chynadleddau?
3. Beth mae'r gyfraith a chanllawiau statudol yn ei ddweud am recordio cyfarfodydd a chynadleddau?
4. A ellir dibynnu ar recordiad yn y Llys?
5. Egwyddorion y ffordd y byddwn yn gweithio.
6. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud pan fydd rhywun eisiau recordio cyfarfod neu gynhadledd yn agored neu yn y dirgel?
7. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os ydynt yn credu y byddai recordio'r cyfarfod a/neu gyhoeddi'r recordiad yn achosi rhagor o niwed i blentyn?
8. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud pan fydd barn defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â recordio'r cyfarfod yn amrywio?

## 1. Cyflwyniad

**Beth yw'r Canllawiau hyn?** Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r adegau pan fydd ar ddefnyddwyr gwasanaeth, rhieni, a phobl eraill sydd â chyfrifoldeb rhieni eisiau recordio cyfarfod amlasiantaeth, megis adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal, cynhadledd amddiffyn plentyn neu oedolyn, neu gyfarfod gofal a chymorth. Yn y canllawiau hyn, defnyddir y term 'rhieni' i ddisgrifio'r rhai sy'n rhieni biolegol, y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant a gwarcheidwaid cyfreithiol. Defnyddir y term 'defnyddiwr gwasanaeth' i ddisgrifio oedolion sydd mewn perygl, oedolion sy'n derbyn gwasanaethau statudol a'r rhai sydd â chynlluniau gofal a chymorth. Mae'r term 'recordio' yn cyfeirio at recordiadau sain a chyfryngau gweledol. Nid yw'r canllawiau hyn yn ymwneud ag adegau pan fydd yr awdurdod lleol neu asiantaeth arall yn recordio cyfarfod.

**Pam y mae angen y canllawiau hyn?** Nid yw recordio cyfarfodydd yn digwydd yn aml, ond pan mae'r sefyllfa'n codi mae angen sicrhau bod cadeiryddion cyfarfodydd a chyfranogwyr eraill yn deall y materion dan sylw ac yn gallu ymateb mewn ffordd glir a chyson.

**Beth yw pwrpas y canllawiau hyn?** Pwrpas y canllawiau hyn yw darparu eglurder ynglŷn â dull Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru o ymdrin â recordio cyfarfodydd. Byddant yn cefnogi'r arferion da presennol ynglŷn â sut y cynhelir cyfarfodydd a dylent annog ymarferwyr i wrando ar resymau rhieni a defnyddwyr gwasanaeth dros fod eisiau recordio. Mae'r canllawiau'n egluro'r gyfraith sy'n ymwneud â recordio.

**Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn wedi eu hanelu?** Mae'r canllawiau wedi eu hanelu at yr ymarferwyr hynny sy'n cadeirio cyfarfodydd amlasiantaeth a'r rhai hynny sydd hefyd yn cymryd rhan (yn gyffredinol, ond nid yn unig) mewn cyfarfodydd statudol amlasiantaeth. Bydd yr ymarferwyr hyn yn dod o asiantaethau statudol ac anstatudol amrywiol.

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn gan gyfeirio at ddogfen a gyhoeddwyd gan The Transparency Project yn Rhagfyr 2015, '**Parents recording social workers – A guidance note for parents and professionals**'.

**Y prif bwynt cyswllt ar gyfer sylwadau yn ymwneud â'r canllawiau hyn yw:**  
[CYSUR@pembrokeshire.gov.uk](mailto:CYSUR@pembrokeshire.gov.uk)

## 2. Pryd fyddai defnyddwyr gwasanaeth eisiau cofnodi cyfarfodydd a chynadleddau?

Weithiau, bydd ar rieni a defnyddwyr gwasanaeth eisiau recordio cyfarfod amlasiantaeth megis adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal, cyfarfod gofal a chymorth, cynhadledd amddiffyn plentyn neu oedolyn, neu grŵp craidd.

Gallant wneud hyn yn y dirgel neu yn agored. Mae recordio yn y dirgel yn golygu eu

bod yn gwneud hyn heb ofyn neu heb ddweud wrth bobl eraill yn y cyfarfod. Gallai'r ddyfais recordio hefyd fod wedi'i chuddio. Mae recordio'n agored yn golygu nad yw'r unigolyn sydd eisiau recordio'r cyfarfod yn cuddio'r ffaith fod arno eisiau gwneud hyn. Efallai y bydd yn gofyn am ganiatâd, neu'n dweud ei fod yn mynd i recordio'r cyfarfod.

Efallai y bydd yr unigolyn yn recordio'r cyfarfod cyfan, neu ddim ond rhan ohono.

Bydd y rhesymau dros fod eisiau recordio cyfarfod yn wahanol ar gyfer pob oedolyn neu aelod o'r teulu, a gallent gynnwys y canlynol:

- Efallai y bydd yr unigolyn yn teimlo bod recordio yn haws na gwneud nodiadau. Gallai hyn fod am nifer o resymau: nam golwg; anabledd dysgu; problem llythrennedd; anabledd corfforol; neu ryw anhawster sy'n effeithio ar allu unigolyn i ysgrifennu, canolbwyntio neu gofio gwybodaeth. Gallai hyn fod yn waeth oherwydd hyd rhai cyfarfodydd, a sut y byddai'r rheswm dros y cyfarfod yn gwneud i rywun deimlo, er enghraifft, dan bwysau;
- Efallai nad yw'r unigolyn eisiau dibynnu ar nodiadau'r cyfarfodydd a / neu efallai nad oes arno eisiau aros i nodiadau'r cyfarfod gael eu hanfon ato. Efallai ei fod wedi cael profiadau blaenorol, sydd wedi golygu bod arno eisiau recordio cyfarfod, er enghraifft heb dderbyn unrhyw nodiadau pan mae eraill wedi eu derbyn, neu wedi derbyn nodiadau nad yw'n cytuno â hwy. Efallai ei fod wedi teimlo ei bod hi'n anodd iddo herio rhywbeth sy'n anghywir neu rhywbeth sydd wedi cael ei adael allan yn y gorffennol;
- Efallai fod gan yr unigolyn deimladau negyddol ynglŷn ag ymarferydd neu asiantaeth arbennig, neu nifer ohonynt. Efallai fod arno eisiau 'dal' ymarferydd neu asiantaeth, neu gasglu tystiolaeth i'w defnyddio yn ddiweddarach mewn achos llys;
- Efallai y bydd arno eisiau defnyddio recordiad at ddibenion eraill, er enghraifft rhannu gwybodaeth fel rhan o ymgyrch, er enghraifft ar y rhyngwyd. Efallai nad hyn yw ei fwriad gwreiddiol wrth wneud y recordiad.

Beth allai rhieni a defnyddwyr gwasanaeth ei wneud gyda'r recordiad?

- Gallent ei gadw ar gyfer eu cofnodion eu hunain;
- Gallent rannu'r recordiad gyda theulu neu ffrindiau;
- Gallent ofyn i Lys ystyried y recordiad.
- Gallent gyhoeddi'r recordiad ar safle cyfryngau cymdeithasol fel Facebook neu ar wefan, ei ddefnyddio wrth gymryd rhan mewn cyfweiliad gyda'r cyfryngau neu ei ddefnyddio mewn ymgyrch.

### 3. Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am recordio cyfarfodydd?

Nid yw recordio cyfarfod yr un fath â dosbarthu neu gyhoeddi recordiadau sy'n cael eu gwneud.

Mae'r adran isod yn darparu crynodeb o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am recordio cyfarfodydd a chynadleddau. Mae dogfen **The Transparency project** (tt 7 – 13) yn cynnwys trafodaeth fanylach ynglŷn â hyn.

**Deddf Diogelu Data 2018** – Nid yw'r ddeddf yn atal rhieni a defnyddwyr gwasanaeth rhag recordio cyfarfodydd.

*Nid yw'r Ddeddf Diogelu Data yn atal rhieni a defnyddwyr gwasanaeth rhag recordio cyfarfodydd oherwydd mae 'data personol' y tu allan i gwmpas GDPR.*

Diffinnir 'data personol' fel gwybodaeth am unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r wybodaeth honno neu wybodaeth arall. Maent hefyd yn cynnwys barn am unigolyn byw. Yn y cyd-destun hwn, bydd yr hyn y bydd gweithiwr proffesiynol yn ei ddweud mewn cyfarfod gwaith cymdeithasol neu gyfarfod amlasiantaeth yn cael ei ddsbarthu fel ei ddata personol dan y Ddeddf Diogelu Data, a gwybodaeth yn ymwneud â phobl eraill sy'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn yw eu data personol.

Fodd bynnag, os bydd unigolyn yn postio recordiad o gyfarfod ar fforwm ar-lein neu ar safle rhwydweithio cymdeithasol bydd angen iddo edrych i wneud yn siŵr a yw'r Ddeddf Diogelu Data'n gymwys. Gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ymchwilio os yw'n ymddangos bod unigolyn wedi mynd y tu hwnt i gwmpas yr eithriad, a gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gymryd camau gorfodi yn ei erbyn.

**Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000** – Nid yw'r Ddeddf yn atal rhieni a defnyddwyr gwasanaeth rhag recordio cyfarfodydd a chynadleddau. Dim ond i weithredoedd y Wladwriaeth (yr awdurdod lleol) y mae'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio'n gymwys, er enghraifft, mae'n rhoi rhywfaint o amddiffyniad i rieni mewn cysylltiad â gweithgaredd tebyg i oruchwyliaeth.

**A oes cyfreithiau eraill sy'n dweud nad oes gan rieni a defnyddwyr gwasanaeth hawl i recordio cyfarfodydd a chynadleddau?**

*Cyfrinachedd a phreifatrwydd* – Os bydd recordiad yn cael ei ddsbarthu neu ei gyhoeddi gan aelod arall o'r teulu, gallai hynny fod yn torri preifatrwydd aelod o'r teulu, yn enwedig os gellir dangos bod y cyhoeddiad wedi achosi aflonyddu, fel y mae'n cael ei ddiffinio yn y gyfraith.

- Pan fydd recordiad yn cael ei wneud at ddefnydd personol yn unig, neu i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys preifat, nid yw'n debygol o dorri preifatrwydd.
- *Hawliau Dynol* – Mae dogfennau neu dystiolaeth a gynhyrchir at ddiben

achos Llys yn dod dan reolau llys ac mae cyfyngiadau yn ymwneud â'u dosbarthu. Nid yw recordiadau o gyfarfod yn dod dan y rheolau llys (hyd yn oed os yw'r rhiant yn bwriadu darparu'r recordiad hwn i'r llys).

Weithiau mae gwrthdaro rhwng hawliau aelodau o'r teulu a'u hawliau unigol i fywyd preifat a bywyd teuluol a'u hawl i ryddid mynegiant.

Nid oes gan aelodau o'r teulu ddyletswydd i'w gilydd dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Er hyn, rhaid i'w hasiantau a'r rhai sy'n gweithio i'r wladwriaeth (sy'n cynnwys yr awdurdod lleol) barchu hawliau preifatrwydd, bywyd teuluol a mynegiant wrth gyflawni ei gwaith.

- *Bywyd preifat ymarferwyr* – Nid yw recordiad o gyfarfod y mae ymarferydd yn mynd iddo, er enghraifft gweithiwr cymdeithasol yn ei rôl broffesiynol, yn debygol o gynnwys gwybodaeth am ei fywyd preifat.
- *Preifatrwydd teuluoedd* – Os bydd rhieni a defnyddwyr gwasanaeth yn cytuno i beidio â dosbarthu eu recordiadau i'r cyhoedd neu grŵp o'r cyhoedd, a dim ond i ddefnyddio'r recordiad ar gyfer eu cofnodion eu hunain neu mewn achos llys preifat, nid yw'n debygol y byddai'r awdurdod lleol yn cael ei feirniadu am dorri preifatrwydd drwy ganiatáu hyn.

Pe bai oedolyn yn dosbarthu recordiad ar y rhynggrwyd (drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu mewn ffordd arall) gallai hyn fod yn niweidiol i'r plentyn, naill ai oherwydd y byddai'n golygu bod modd adnabod y plentyn fel un y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud ag ef (er enghraifft) neu oherwydd bod manylion ei fywyd preifat yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Efallai y byddai awdurdod lleol (neu oedolyn) yn gallu gofyn am waharddeb i atal hyn neu i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei thynnu oddi yno pe bai'n niweidiol i blentyn.

Dosbarthu'r recordiad sy'n achosi problemau ac nid y recordio ei hun.

- *Difenydd (enllib neu athrod)* – nid yw hyn yn debygol o fod yn gymwys oni bai fod rhywbeth a gafodd ei ddweud ddim yn wir, ac yn debygol o achosi niwed difrifol i enw da'r person yr oedd y datganiad yn ymwneud ag ef. Mae'r hyn sy'n cael ei ddweud mewn cyfarfodydd a chynadleddau'n debygol o fod yn 'farn onest' ac, o ganlyniad, nid yw'n debygol o fod yn ddifenyddol.
- *Aflonyddu* – Pe bai rhywun yn recordio cyfarfod â'r bygythiad penodol neu ymhlyg o 'fynd at y cyhoedd', neu roi'r recordiad ar y rhynggrwyd, neu gylchredeg y deunydd mewn ffordd arall gyda'r bwriad o achosi gofid neu ofn, mae'n bosibl y gellid gofyn i lys wneud gorchymyn (gwaharddeb) i atal hyn. Pe bai recordiad yn cael ei ddefnyddio i aflonyddu ar weithiwr proffesiynol, mae'n bosibl y gofynnid i lys wneud gwaharddeb hefyd, er nad yw hyn mor debygol.

#### **4. A ellir dibynnu ar recordiad gan riant neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn y Llys?**

Mae'n bosibl y gallai recordiad sydd wedi'i wneud gan oedolyn fod yn dderbyniol yn y Llys, ond byddai angen i'r Llys roi caniatâd. Nid yw Llys yn debygol o roi caniatâd oni bai ei fod yn glir bod y recordiad yn berthnasol ac yn ddibynadwy.

Mae Llys yn fwy tebygol o roi caniatâd os yw recordiad o ansawdd clywedol a gweledol da ac os yw'n amlwg yn gofnod o'r cyfarfod cyfan yn hytrach na detholiad wedi'i olygu.

Os yw cyfarfod wedi cael ei recordio yn y dirgel, efallai y bydd yn anodd dangos bod y recordiad yn gyflawn, ac nad yw rhywbeth a gafodd ei ddweud neu ei wneud yn cael ei gymryd allan o'i gyd-destun.

Mae'r Llys yn debygol o ofyn am drawsgrifiad, ond dylai'r recordiad digidol neu analog gwreiddiol fod ar gael i bob cyfranogwr ei glywed a'i weld.

#### **5. Egwyddorion y ffordd y byddwn yn gweithio**

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi nodi set o egwyddorion i gefnogi ein dull o ymdrin ag achosion o recordio cyfarfodydd.

- Os cynhelir cyfarfodydd rhithwir neu hybrid, disgwylir i'r rhai sy'n mynychu gadw eu camerâu ymlaen gydol y cyfarfod.
- Bydd ymarferwyr yn dal i ymddwyn yn broffesiynol mewn cyfarfodydd a darparu gwybodaeth ffeithiol, glir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi trafodaeth a'r broses o wneud penderfyniadau. Os gofynnir iddynt fynegi barn byddant yn parhau i wneud hynny;
- Byddwn yn gweithio yn unol â chanllawiau cyfreithiol, canllawiau statudol neu weithdrefnau lleol wrth gymryd nodiadau a gwneud cofnodion o gyfarfodydd, gan gynnwys cynadleddau, a'u dosbarthu o fewn graddfeydd amser cytunedig lle bynnag y bo modd;
- Byddwn yn egluro wrth bawb yn y cyfarfod beth yw'r broses leol ar gyfer recordio a dosbarthu'r nodiadau yn ogystal â'r broses ar gyfer gwneud cais am newidiadau.
- Byddwn yn dal i atgoffa'r rhai sy'n bresennol bod unrhyw wybodaeth a gaiff ei thrafod mewn cyfarfod yn gyfrinachol, ac y byddant yn dod yn gyfrifol am unrhyw wybodaeth y byddant yn mynd â hi o'r cyfarfod gyda hwy;
- Byddwn yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol os bydd sefyllfa'n codi lle bydd rhywun yn gofyn am gael recordio cyfarfod, a byddwn yn darparu ymateb cyson a chlir ynglŷn â hyn. Os bydd y mater wedi codi mewn cyfarfod blaenorol, dylai cadeirydd y cyfarfod fod yn rhagweithiol cyn y cyfarfod a gofyn i'r sawl a oedd eisiau recordio o'r blaen a fyddai'n hoffi gwneud hynny

yn y cyfarfod;

- Byddwn yn gweithio gyda rhieni a defnyddwyr gwasanaeth pan fydd y sefyllfa'n codi er mwyn archwilio gyda nhw pam y gallent fod eisiau recordio cyfarfod.
- Os yw'r rheswm dros fod eisiau recordio cyfarfod yn ymwneud ag unrhyw ofynion sydd gan y person ag anhawster dysgu, anabledd dysgu, nam ar y synhwyrau neu nam corfforol, neu os nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddo, byddwn yn ymdrechu lle bynnag y bo'n ymarferol bosibl i ddarparu cymorth ychwanegol i alluogi'r person i ddeall beth sy'n cael ei ddweud ac i sicrhau bod recordiad yn cael ei wneud, a hwnnw'n un y gall ei ddeall;
- Byddwn yn sicrhau bod buddiannau'r plentyn, y person ifanc, a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog i unrhyw drafodaeth am recordio cyfarfodydd er mwyn sicrhau nad yw unrhyw gamau a gymerir yn debygol o achosi niwed i'r plentyn neu'r defnyddiwr gwasanaeth;
- Byddwn yn darparu gwybodaeth i ymarferwyr eraill, os bydd y sefyllfa'n codi, lle gwyddys bod rhiant neu ddefnyddiwr gwasanaeth eisiau recordio'r cyfarfod;
- Byddwn yn cadarnhau yn y cofnodion ysgrifenedig a yw rhywun wedi recordio'r cyfarfod.

### **Ar gyfer Plant**

- Os oes gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant (pan fydd y plentyn yn destun gorchymyn gofal interim neu lawn neu orchymyn lleoliad), bydd y Gweithiwr Cymdeithasol a Swyddog Adolygu Annibynnol y plentyn yn penderfynu ar y cyd beth sydd er pennaf les y plentyn;
- Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddigon hen, ac os oes ganddo'r ddealltwriaeth i gymryd rhan mewn trafodaeth ynglŷn ag a ddylai rhywun recordio cyfarfod, bydd yn cael ei gynnwys yn y drafodaeth a bydd ei farn yn cael ei hystyried.

### **6. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud pan fydd sefyllfa'n codi lle mae rhywun eisiau recordio cyfarfod neu gynhadledd yn agored neu yn y dirgel?**

*Pan fydd ar rywun eisiau recordio cyfarfod yn agored;*

- a) Dylai unrhyw gais i recordio cyfarfod gael ei wneud yn uniongyrchol i'r cadeirydd pan dderbynnir y gwahoddiad i fod yn bresennol, ond dim mwy na dau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Dylai cadeirydd y cyfarfod archwilio'r rhesymau dros fod eisiau recordio'r cyfarfod gyda'r unigolyn a thrafod beth y mae'n bwriadu ei wneud gyda'r recordiad. Dylai cadeirydd y cyfarfod sicrhau bod unrhyw



drafodaeth a'r canlyniad a'r rhesymau dros hyn yn cael eu cofnodi yn y cofnodion, a bod y rheolau yn ymwneud â defnyddio'r recordiad ar gyfer unrhyw ddiben ar wahân i ddefnydd personol yn cael eu hegluro'n glir i'r cyfarfod cyfan ac yn cael eu cofnodi.

- Os yw'r rhesymau'n ymwneud â'i anabledd, nam neu allu i ddilyn y draffodaeth neu gofio beth sydd wedi cael ei ddweud, dylid trafod ffyrdd o wella hyn iddynt a rhoi sylw i'r mater lle bo'n bosibl. Gallai hyn gynnwys pawb yn y cyfarfod yn cytuno i beidio â defnyddio jargon a / neu i egluro pethau mewn ffordd sy'n addas i'r unigolyn. Yn ychwanegol at hyn, dylid gwneud trefniant i gysylltu â'r oedolyn ar ôl y cyfarfod i'w helpu i ddeall penderfyniadau sy'n cael eu gwneud;
- Os bydd yr oedolyn yn dweud bod y rhesymau'n gysylltiedig â diffyg ymddiriedaeth yn y bobl yn y cyfarfod, neu sut y mae'r wybodaeth yn cael ei nodi, dylid archwilio hyn ymhellach gydag ef. Dylid gofyn iddo beth fyddai'n helpu. Gallai hyn gynnwys y cadeirydd yn egluro pob penderfyniad allweddol yn y cyfarfod ac yn dweud beth fydd yn cael ei recordio. Efallai y byddai'n helpu pe bai'r ymarferydd arweiniol yn ymweld â'r rhiant ar ôl y cyfarfod i egluro beth gafodd ei benderfynu;
- Os bydd yr oedolyn yn dweud bod arno eisiau defnyddio'r recordiad yn y Llys, dylid archwilio'r rhesymau dros hyn gydag ef a chwilio am ffyrdd iddo deimlo bod ei farn yn cael ei chlywed ac yn cael ei hadlewyrchu yn nodiadau'r cyfarfod. Dylid ei hysbysu hefyd bod yn rhaid i Lys roi caniatâd cyn y gellir dibynnu ar recordiad yn y Llys a bod caniatâd yn annhebygol oni bai ei bod yn glir bod y recordiad yn berthnasol ac yn ddibynadwy. Mae Llys yn debygol o ofyn am recordiad o ansawdd da sydd o'r cyfarfod cyfan yn hytrach na detholiad wedi'i olygu. Os bydd recordiad wedi'i wneud yn y dirgel, gall fod yn anodd dangos bod y cyfarfod yn gyflawn ac nad yw rhywbeth a gafodd ei ddweud neu ei wneud wedi'i dynnu allan o'i gyd-destun. Mae Llys hefyd yn debygol o ofyn am drawsgrifiad ochr yn ochr â'r recordiad gwreiddiol;
- Os bydd yr oedolyn yn dweud bod arno eisiau recordio'r cyfarfod er mwyn ei gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar y rhyngwrwyd, dylai'r cadeirydd draffod hyn gydag ef a'i gynghori ynglŷn â'r risgiau a allai godi o ganlyniad i hyn, e.e. effaith negyddol ar y plentyn, hyd oes deunydd a gyhoeddir ar y rhyngwrwyd, methu â thynnu gwybodaeth o'r fath yn ôl ar ôl iddi gael ei rhannu, ac yn y blaen. Fodd bynnag, er y gellir ac y dylid cynghori'r unigolyn i beidio â defnyddio recordiad yn y fath fodd, bydd yr unigolyn yn gwbl gyfrifol am unrhyw beth y bydd yn ei wneud yn dilyn hynny i brosesu ei ddata personol ei hun (e.e. rhannu ei recordiad ar y cyfryngau cymdeithasol). Pe bai'n dewis gwneud hynny, yn groes i'r cyngor a roddir, ni fydd hyn yn arwain at unrhyw feiusrwydd ar ran y Cyngor am rannu'r data.

- b) Dylai cadeirydd y cyfarfod egluro wrth holl aelodau'r cyfarfod bod y cais wedi cael ei wneud, a dylai ofyn am farn aelodau'r cyfarfod. Ar gyfer plant, dylai'r plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant arall (fel y bo'n berthnasol) hefyd gael cyfle i fynegi eu barn.
- c) Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu i gyfarfod gael ei recordio ai peidio. Dylai'r penderfyniad fod yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r rhiant, defnyddwyr gwasanaeth, ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol a lle bo'n berthnasol y plentyn. Dylai'r penderfyniad ystyried unrhyw risg bellach i'r plentyn / person ifanc neu'r defnyddiwr gwasanaeth, a dylid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn y cofnodion.
- d) Os penderfynwyd caniatáu'r recordiad, ac os oes angen trafod gwybodaeth sensitif, er enghraifft gwybodaeth feddygol sensitif, yr ymarfer gorau fyddai i'r Cadeirydd benderfynu stopio'r recordiad nes bydd y rhan hon o'r cyfarfod wedi dod i ben. Dylid nodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod.

*Pan fydd rhywun wedi recordio cyfarfod neu gynhadledd yn y dirgel*

- e) Pan fydd wedi dod yn amlwg bod rhiant neu ddefnyddiwr gwasanaeth wedi recordio cyfarfod yn y dirgel, heb yn wybod i'r cadeirydd na'r bobl eraill a oedd yn cymryd rhan, dylid hysbysu cadeirydd y cyfarfod. Dylai'r cadeirydd ystyried hysbysu cynrychiolydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol a gofyn am gyngor ynglŷn â'r goblygiadau posibl ac a oes angen cymryd unrhyw gamau.
- f) Pe bai sefyllfa'n codi lle mae'n dod yn amlwg yn ystod cyfarfod bod recordiad yn cael ei wneud yn y dirgel, heb drafod na dod i gytundeb ymlaen llaw â'r Cadeirydd, gellir atal y cyfarfod dros dro fel bod modd cael trafodaeth adeiladol rhwng y Cadeirydd a'r sawl sy'n recordio'r cyfarfod. Bydd hyn yn galluogi cadeirydd y cyfarfod i archwilio'r rhesymau dros y recordiad, fel yr amlinellwyd dan 6 uchod. Gall cadeirydd y cyfarfod ddewis oedi ymhellach, ac aildrefnu'r cyfarfod os yw hynny'n briodol, ac os nad yw'r ddwy ochr yn gallu dod i gytundeb. Os bydd sefyllfa o'r fath yn codi dylid pwysu a mesur unrhyw risgiau y mae'r plentyn neu'r oedolyn yn eu hwynebu ac a oes elfen o frys yn gysylltiedig â'r sefyllfa, gan gymharu hynny â'r penderfyniad i ohirio'r cyfarfod.

*Mewn sefyllfaoedd agored a dirgel*

- g) Os darganfyddir bod rhiant neu ddefnyddiwr gwasanaeth wedi cyhoeddi recordiad ar y cyfryngau cymdeithasol a / neu yn rhywle arall ar y rhyngwrwyd, neu wedi'i ddefnyddio at ddiben arall, dylai'r ymarferydd arweiniol ystyried pa niwed y gallai hyn ei achosi a beth yw'r goblygiadau i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn. Dylai'r ymarferydd arweiniol ofyn am gyngor cyfreithiol. Gallai'r awdurdod lleol ofyn am waharddeb i geisio cael gwared ar y recordiad.

**7. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud os ydynt yn credu y byddai recordio'r cyfarfod a / neu gyhoeddi'r recordiad yn achosi risg o ragor o niwed i**

## **blentyn?**

### **Ar gyfer Plant**

Os oes gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc (oherwydd ei fod yn destun gorchymyn gofal interim neu lawn neu orchymyn lleoliad) gallai'r cadeirydd benderfynu gwahardd oedolyn sy'n mynnu recordio cyfarfod, lle nad yw gwneud recordiad (a'i gyhoeddi o bosibl) er pennaf les y plentyn.

Neu, gallai'r cadeirydd ohirio'r cyfarfod, lle bo'n briodol ac yn ddiogel, a chynnig cynnal cyfarfod adferol gyda'r rhiant er mwyn archwilio ymhellach pam y byddai arno eisiau recordio'r cyfarfod a cheisio dod i gytundeb.

Ym mhob achos, dylid cofnodi'r penderfyniad.

### **8. Beth ddylai ymarferwyr ei wneud pan fydd barn rhieni ynglŷn â recordio'r cyfarfod yn amrywio?**

Os oes ar un oedolyn eisiau recordio'r cyfarfod, ond nad yw'r llall eisiau gwneud hynny, dylai'r cadeirydd archwilio hyn gyda phob oedolyn ar wahân.

Os penderfynir nad yw'r recordio'r cyfarfod yn achosi risg o ragor o niwed, dylai'r cadeirydd geisio cael cytundeb gyda'r partïon perthnasol.

Os nad yw'n bosibl cael cytundeb, gallai'r cadeirydd benderfynu rheoli'r cyfarfod mewn ffordd wahanol, er enghraifft cynnal cyfarfod hollt gyda rhai rhannau o'r cyfarfod yn cael eu recordio a rhai rhannau ddim yn cael eu recordio.

Os bydd aelod arall o'r teulu neu ffrind a wahoddwyd gan y rhieni (nid rhiant biolegol na rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant) yn dweud ei fod yn bwriadu recordio cyfarfod ac nad yw'r rhieni'n cytuno â hynny, gofynnir iddo beidio. Os na fydd yn stopio, bydd y cadeirydd yn atal y cyfarfod a gofynnir iddo adael.

Dylai'r ymarferydd arweiniol ofyn am gyngor cyfreithiol os oes rhywfaint o recordio wedi digwydd.